



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Prifysgol Bangor

## COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 29 Tachwedd 2019.

### Presennol:

Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr Mark Barrow, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Dr Peter Higson, Yr Athro Jerry Hunter, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Sir Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Miss Lleucu Myrddin, Ms. Ellen Parry-Williams, Miss Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro David Thomas, Yr Athro Carol Tully, Yr Athro Oliver Turnbull, Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Eiddo a Champws, Cyfarwyddwr Cyllid a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

### Ymddiheuriadau:

Dr Tomos Dafydd a Mr Tudur Williams.

## 19.22 CROESO

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Dr Ian Rees, Aelod Annibynnol, a Mr Lars Wiegand, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS), i'w cyfarfod cyntaf.

## 19.23 MATERION Y CADEIRYDD

Adroddodd y Cadeirydd, yn anffodus, fod Yr Athro Derec Llwyd Morgan wedi hysbysu'r Ysgrifennydd o'i fwriad i dynnu'n ôl o fod yn aelod o'r Cyngor am resymau personol.

## 19.24 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Dr Harry Angus**, cyn Uwch Ddarlithydd mewn Cemeg  
**Olwen May Davies**, cyn Brif Uwch Ddarlithydd, Coleg Normal  
**Yr Athro Frank Palmer**, cyn Athro Ieithyddiaeth  
**Robert Owen Morris**, Cymrawd er Anrhydedd o'r Brifysgol  
**Darren Wood**, Darlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd  
**Yr Athro David Last**, Athro Emeritws, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig

Safodd yr aelodau er cof amdanynt.

## 19.25 LLONGYFARCHIADAU

### Ar dderbyn Cadair er Anrhydedd:

Yr Athro Karen Hughes, Coleg Gwyddorau Dynol

### Llongyfarchwyd y canlynol gan y Cadeirydd hefyd:

**Delyth Prys, Dewi Bryn Jones a Stefano Ghazzali** o'r Uned Technolegau Iaith a dderbyniodd Wobr Rhoi Llais (Giving Voice Award) gan y Royal College of Speech and Language Therapists (RCSLT). Roedd y project Lleisiwr, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi datblygu meddalwedd i greu lleisiau synthetig wedi'u personoli i helpu cleifion a oedd ar fin colli eu lleisiau eu hunain. Galluogodd y project greu banc o leisiau yn Gymraeg a Saesneg fel y gellid adeiladu fersiwn ddigidol o'r lleisiau.

Mae'r **Athro Chris Collins**, Pennaeth yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, wedi'i ethol yn Ddarpar Lywydd yr Incorporated Society of Musicians. Bydd Yr Athro Collins yn gweithredu fel aelod o driawd llywyddol y Gymdeithas tan fis Ebrill 2020, pan fydd yn dod yn Llywydd.

Rhodddwyd gwybod hefyd bod dau gais diweddar i **Athena SWAN** gan Ysgol Busnes Bangor a'r Ysgol Seicoleg wedi bod yn llwyddiannus. Ysgol Busnes Bangor yw'r Ysgol gyntaf o Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes i ennill gwobr. Mae'r Ysgol Seicoleg wedi bod yn ddeiliad gwobr Efydd ers 2016 a llwyddodd i adnewyddu'r wobr hon. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod ymrwymiad parhaus y Brifysgol a'r Ysgolion i gydraddoldeb rhyw i staff a myfyrwyr.

## 19.26 DATGANIADAU BUDD

- A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.
- B. Datganodd yr aelodau canlynol fudd:
  - [1] Dr Karen Jones, Cyfarwyddwr Anweithredol MSparc a Morlais (mewn perthynas â Bargen Twf Gogledd Cymru);
  - [2] Yr Athro Carol Tully, Cyfarwyddwr Undeb Cyf

## 19.27 COFNODION

- A. Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 4 Hydref 2019.
- B. Gan gyfeirio at:
  - [1] **Bargen Twf Gogledd Cymru** (Cofnod 19.09); rhodddwyd gwybod bod y Fargen bellach wedi'i chymeradwyo, ac y bydd gwaith yn dechrau ar y cynllun busnes pum achos. Cadarnhaodd yr Is-ganghellor y bydd y Cyngor yn derbyn gwybodaeth ddiweddaraf reolaidd ar y mater.

- C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor gynnydd a chamau gweithredu a gwblhawyd.

### 19.28 MATERION YR IS-GANGHELLOR

- A. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw'r Cyngor at nifer o faterion.

- [1] **Diwrnod Datblygu Strategol**; nodwyd bod y digwyddiad, a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, ac a oedd yn cynnwys pedwar prif siaradwr, wedi bod yn ddiwrnod buddiol ac addysgiadol. Bwriedir bwrw ymlaen â materion a ddeilliodd o'r trafodaethau, a bydd digwyddiadau pellach yn cael eu cynnal maes o law.
- [2] **Addysg Feddygol**; tynnwyd sylw at bwysigrwydd y ddadl yn ymwneud ag addysg feddygol a dyheadau'r Brifysgol, ynghyd â phwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Bu newid yn y modd mae'r Brifysgol yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bydd Memorandwm Cytundeb rhwng y ddwy ochr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w drafod maes o law.
- [3] **Sefyllfa Addysg Uwch**; Cyfeiriwyd at y sefyllfa ansicr yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad cyffredinol, a'r ymrwymadau ym manifestos y prif bleidiau gwleidyddol, gyda ffioedd myfyrwyr yn debygol o fod yn bwnc llosg waeth beth fydd canlyniad yr etholiad.
- [4] **Adolygiad o Lywodraethu yng Nghymru**; Roedd disgwyl i'r adroddiad o adolygiad Gillian Camm o lywodraethu ym mhrifysgolion Cymru gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, ac yn dilyn hynny bydd angen i'r Brifysgol asesu'r argymhellion yn ymwneud â'i phrosesau llywodraethu.
- [5] **Proses Dendro Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)**; Mae addysg iechyd yn rhan allweddol o'r brifysgol, a'i chyfraniad i Ogledd Cymru, a nodwyd bod y Brifysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam i baratoi cais ar y cyd i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) ar gyfer haf 2020.
- [6] **Safle mewn Tablau Cynghrair**; Mae tri phrif dabl cynghrair prifysgolion y DU (*The Complete University Guide*, *The Guardian University Guide* a *The Times Good University Guide*) yn cael effaith enfawr ar enw da'r brifysgol, ac yn y pen draw ar ei gallu i recriwtio myfyrwyr. Roedd yn hanfodol bod y brifysgol yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth data, gan ystyried yr effaith ganlyniadol ar dablau cynghrair. Nodwyd bod Cynllun Gweithredu ar waith bellach i fwrw ymlaen â'r gwaith allweddol hwn, gan edrych ar sut y gallwn wella perfformiad yn y meysydd allweddol.

### 19.29 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR

Derbyniodd y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar. Nodwyd mai'r Etholiad Cyffredinol ar hyn o bryd oedd un o brif flaenoriaethau'r Undeb ac, yn benodol, rhoi ar ddeall i fyfyrwyr eu bod yn gallu cofrestru i bleidleisio naill ai ym Mangor neu yn eu cyfeiriad cartref. Roedd Undeb y Myfyrwyr am gynnal digwyddiad hysting yr wythnos ganlynol i'r ymgeiswyr am etholaeth Arfon.

Roedd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan arweiniad myfyrwyr wedi ei lansio'r wythnos flaenorol; roedd yn benllanw cydweithredu cadarnhaol rhwng y Brifysgol a'r Undeb.

Roedd cynaliadwyedd a'r amgylchedd yn dal i fod yn bryderon mawr i fyfyrwyr ac mae amrywiaeth o gynlluniau'n parhau yn y maes hwn. Nodwyd bod Undeb y Myfyrwyr, ynghyd â'r Brifysgol, wedi cyrraedd rownd derfynol y Gwobrau Gŵn Gwyrdd diweddar am y cynllun Ystyried Cyn Yfed (*Think Before You Drink*), gan weithio ochr yn ochr ag adran arlwy'o'r Brifysgol.

Roedd arolwg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn edrych ar brofiadau myfyrwyr blwyddyn gyntaf Cymraeg, a'r gobaith yw y bydd y canlyniadau'n galluogi Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) i gynorthwyo myfyrwyr blwyddyn gyntaf y dyfodol i ymgartrefu yn y Brifysgol yn ystod yr wythnosau cyntaf hollbwysig.

Mae UMCB wedi rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg '*Mae gen i Hawl*' gyda'r nod o addysgu myfyrwyr a staff sy'n siarad Cymraeg o'u hawliau wrth weithio ac astudio yng Nghymru. Bydd 'Diwrnod Hawliau' yn cael ei gynnal mewn sefydliadau ledled Cymru ar 6 Rhagfyr.

### 19.30 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Nodwyd yr adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad I i gopi swyddogol y cofnodion), a thynnwyd sylw at y materion canlynol yn arbennig:

- [1] **Adolygiadau Ysgol;** cwblhawyd yr adolygiad o Ysgol y Gyfraith ac Ysgol Busnes Bangor, ac roedd camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd yr adolygiadau o'r Ysgolion sy'n weddill yn cael eu cynnal maes o law.
- [2] **Staff ar gontractau tymor byr;** ar hyn o bryd mae 59% o staff ar gontractau tymor byr, sy'n ostyngiad o'r ffigur blaenorol o 65%. Nodwyd nad yw'r nifer hwn yn anghyffredin yn achos prifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r undebau i adolygu mater contractau tymor byr a bwch cyflog rhwng y rhywiau. Nodwyd bod y materion hyn yn rhan o'r gweithredu diwydiannol presennol.
- [3] **Ynni Adnewyddadwy;** nodwyd bod y Pwyllgor Gweithredu, fel rhan o'i ymrwymiad i gynaliadwyedd, wedi cymeradwyo cynnig i newid i ffynonellau adnewyddadwy 100%. Roedd y Brifysgol wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Hydref, a gofynnodd aelodau'r Cyngor i'r Brifysgol sicrhau bod contractau'n cael eu hystyried yn erbyn templed cynaliadwyedd, ac y dylid craffu ar bortffolio buddsoddi'r Brifysgol i sicrhau bod buddsoddi moesegol yn parhau.
- [4] **Asiantau Rhyngwladol;** nodwyd bod perthynas y Brifysgol â'i hasiantau rhyngwladol yn cael ei monitro'n agos, gyda chytundebau ag asiantau wedi'u sefydlu, a hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu, dramor ac ym Mangor.
- [5] **Y Comisiwn Elusennau;** roedd Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Is-ganghellor (fel Ymddiriedolwyr y Brifysgol), ynghyd ag Ysgrifennydd y Brifysgol, a Phennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, wedi cyfarfod â'r Comisiwn Elusennau i drafod rhoi gwybod

am ddigwyddiadau difrifol. Roedd y Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno y bydd eitem sefydlog fisol ar yr agenda i drafod unrhyw faterion y gall fod angen rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt. Bydd hyn yn digwydd yr un pryd â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg, lle dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath hefyd.

- [6] **UCAS Media**; Roedd y Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno i gynnig i ymuno â phartneriaeth ag UCAS ar gyfer cyfryngau a threiddgarwch. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gyfle i ddatblygu perthynas gynhyrchiol, gan edrych yn benodol ar feysydd rhaglenni cyfredol a newydd, trwy fynediad at ddata'n cynnwys y newyddion diweddaraf. Yn ogystal, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar frand y Brifysgol (yn cynnwys y wefan, dyddiau agored etc) i sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud popeth posibl i ymateb i'r her recriwtio. Cyflogwyd ymgynghorwyr i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

### **19.31 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19**

- A. Ystyriodd y Cyngor ddadansoddiad o berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2018/19. Nododd y Cyngor berfformiad y Brifysgol yn erbyn ei chynllun strategol, gan gymryd sylw arbennig o feysydd lle roedd risgiau wedi cael eu nodi. Yn benodol fe nodwyd:

- [1] Bellach darperir gwybodaeth ar lefel Ysgol yn hytrach nag ar lefel Coleg i roi gwell syniad o sut mae perfformiad yn amrywio ar draws yr Ysgolion.
- [2] Roedd canlyniadau boddhad myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, y PTES a PRES wedi gostwng ychydig, ond arhosodd y Brifysgol yn y deg uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran boddhad myfyrwyr.
- [3] Mae'r Brifysgol ym mhen isaf grŵp cymheiriaid B TRAC ar gyfer Incwm Ymchwil UKRI, ond ar ben uchaf y grŵp ar gyfer ffynonellau nad ydynt yn rhai UKRI.
- [4] Mae niferoedd myfyrwyr tramor yn dangos bod y Brifysgol yn gwneud yn dda o'i chymharu â'r sector dros y cyfnod, yn enwedig o'i chymharu â'i grŵp cystadleuwyr, a'r dirywiad sylweddol yn gyffredinol yn sector Cymru.
- [5] Roedd rhaglen waith gynhwysfawr yn mynd rhagddi yn yr holl feysydd hyn, a nodwyd y bydd nifer o fentrau yn cymryd ychydig flynyddoedd i wneud gwahaniaeth i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

- B. Roedd y Cyngor yn hapus gyda'r cynnydd drwodd a thro yn erbyn y cynllun strategol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a cytunwyd y ddogfen i'w ddanfoni HEFCW.

### **19.31 RECRIWTIO MYFYRWYR**

- A. Rhoddodd Yr Athro Andrew Edwards gyflwyniad ar sefyllfa recriwtio ddiweddaraf y Brifysgol ar gyfer 2019/20. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

- [1] Roedd mwyafrif cofrestriadau myfyrwyr bellach wedi'u cadarnhau, gyda rhagolwg am nifer fechan o gofrestrïadau ychwanegol lle gwyddys bod y myfyriwr yn bresennol.

Drwodd a thro roedd y Brifysgol yn debygol o gofrestru 7,656 o fyfyrwyr, 187 yn fwy na'r hyn a ragwelwyd, ond gostyngiad o 165 ar y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

- [2] Mae gwaith yn cael ei wneud, gan ddefnyddio cyfryngau UCAS a data manwl, i dargedu myfyrwyr ac i ddeall ymddygiad myfyrwyr. Ystyrir datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio ar ddyddiau agored a dyddiau ymgeiswyr i rannu arfer gorau ledled y brifysgol, a gwnaed adolygiadau ar brofiadau mewn ddyddiau agored a dyddiau ymgeiswyr diweddar. Rhoddir sylw allweddol i recriwtio myfyrwyr Cartref/UE, a bydd y gwaith sydd ar y gweill gyda chyfryngau UCAS yn werthfawr yn hyn o beth.
  - [3] Mae camau'n cael eu cymryd i adnewyddu ac adolygu rhaglenni cyfredol, ac i ystyried rhaglenni newydd.
  - [3] Ar hyn o bryd roedd ceisiadau gan Israddedigion Cartref/UE ar gyfer 2020/21 20% yn is na'r adeg hon y llynedd. Mae'n ddyddiau cynnar ond bydd y dirywiad yn parhau heb ymyrraeth benodol.
  - [4] Ystyriwyd bod cyflwyno blynyddoedd sylfaen pellach, i gyd-fynd â'r rhai a gynigiwyd eisoes, yn ddatblygiad hanfodol.
  - [5] Roedd yr ymgyrch recriwtio i gael Cyfarwyddwr Marchnata newydd, gyda phwyslais penodol ar recriwtio unigolyn â sgiliau marchnata cryf, sydd hefyd â phrofiad allweddol mewn partneriaethau rhyngwladol, yn parhau ar hyn o bryd.
- B. Nododd y Cyngor yr sialensiau oedd o'n blaenau, a'r camau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i roi sylw i'r sefyllfa recriwtio.

### **19.32 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

Derbyniodd a nododd y Cyngor ddata'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr, grantiau a chontractau ymchwil a ddyfarnwyd, a dangosyddion perfformiad ariannol chwarterol.

### **19.33 ADRODDIAD O'R PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU**

- A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a gynhaliwyd 22 Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).
- B. Nodwyd bod cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgorau Cyllid ac Adnoddau ac Archwilio a Risg wedi'i gynnal.
- C. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, gyflwyniad ar y cynnydd a'r heriau wrth gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Nodwyd:
  - [1] nad yw'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cynhyrchu llawer iawn o arian parod drwodd a thro, ac er bod balansau arian parod yn edrych yn weddol iach (£30m) atgoffwyd y Cyngor bod arian EIB wedi'i gynnwys yn y ffigur hwn tan 2021, ar gyfer buddsoddiad ac isadeiledd cyfalaf. Codwyd pryder ynglŷn â lefelau balansau arian parod y Brifysgol y tu

hwnt i 2021, a nodwyd yr angen i gynhyrchu mwy o gronfeydd arian parod wrth gefn i sicrhau cynaladwyedd.

- [2] Bod heriau a risgiau cyllidebol cynyddol gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ystadau, cynnydd mewn cyfraniadau USS, a dyfarniad cyflog posib o dros 2%.
- [3] Bod y 'Diamond Dividend' wedi'i gynnwys yn y rhagolwg, gyda chynnydd o oddeutu £3m y flwyddyn yn y grant HEFCW.

### 19.34 CYFRIFON CYLLIDOL 2018/19

A. Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Cyfrifon Archwiliedig am 2018/19. Mae'r rhain wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Nodwyd y canlynol:

- [1] Mae symudiadau'n ymwneud â phensiwn yn cael lle blaenllaw yn y canlyniadau terfynol ar gyfer 2018/19, yn benodol £18.8m yn ymwneud ag adolygu'r sefyllfa bensiwn ar gyfer USS, sy'n adlewyrchu canlyniad Prisiad USS yn 2017.
- [2] Roedd y canlyniadau gweithredu yn well na rhagfynegiadau Chwarter 3. Fodd bynnag, roedd costau cyflogau £0.5m dros y targed, a oedd yn cynnwys £1.4m mewn taliadau diswyddo gwirfoddol.
- [3] Cafwyd gwelliant sylfaenol yn EBITDA o £15.0m i £16.1m, ac roedd y balansau arian parod terfynol o £29.9m yn well na'r rhagfynegiadau.
- [4] Mae profion cyfamod wedi'u cynnal ar gyfer EIB a Santander ym mhob categori ar 31 Gorffennaf 2019. Erys y potensial i fethu ar gyfleuster Santander ym mis Gorffennaf 2020; fodd bynnag, pe bai'r profion lefel EIB yn cael eu mabwysiadu (fel y cynigwyd) byddai hyn yn galluogi pasio prawf cyfamod.
- [5] Cafwyd canlyniad cadarnhaol gan yr Archwilwyr Allanol ac roedd y rhagdybiaeth busnes hyfyw yn 'iawn' tan ddiwedd 2020.
- [6] Mae'r archwilwyr yn gofyn yn flynyddol am Lythyr Cyflwyno Achos ac mae'n cynnwys datganiadau ychwanegol bod y Cyngor yn hyderus y cyflawnir targedau incwm a chynilo yn y dyfodol.

B. Wedi ystyriaeth lawn, **penderfynwyd:**

- [1] Cymeradwyo'r Cyfrifon am 2018/19 a'u llofnodi gan yr Is-ganghellor, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Cyllid a'u hanfon at HEFCW erbyn diwedd y dydd.
- [2] Bod y Llythyr Cyflwyno Achos at yr Archwilwyr i'w llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor.

### 19.35 CYFLWYNIAD AR FLAENORIAETHAU GAN GYFARWYDDWR Y GWASANAETH EIDDO A CHAMPWS (PACS)

- A. Rhoddodd Cyfarwyddwr PACS gyflwyniad byr ar y blaenoriaethau allweddol i PACS dros y 12 mis nesaf. Dyma'r rhai a nodwyd:
- Ailfywiogi a datblygu'r potensial o fewn tîm PACS;
  - Adfer hyder ac ymddiriedaeth mewn buddsoddiad cyfalaf trwy fodel diwygiedig i reoli projectau;
  - Datblygu Strategaeth Ystadau 10 mlynedd gyraeddadwy sy'n cyd-fynd â gweledigaeth strategol;
  - Sicrhau cydymffurfio â gofynion statudol, cynnydd a gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol penodedig; a
  - Sefydlu'r Brifysgol fel arweinydd yng nghymuned ehangach Bangor a meithrin perthynas â sefydliadau allanol.
- B. Nododd y Cyngor gynnwys y cyflwyniad ac roeddent yn falch o dderbyn y sicrwydd a gafwyd.

### **19.36 ADEILAD ALUN ROBERTS**

- A. Cyflwynodd Cyfarwyddwr PACS bapur ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud ag Adeilad Alun Roberts. Nododd y Cyngor y wybodaeth a roddwyd am y cynlluniau tymor byr, canolig a hir ar gyfer yr adeilad.
- B. Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwr adeileddol presennol yr adeilad, yn enwedig yn dilyn y digwyddiad ym mis Awst 2019 (y rhoddwyd gwybod amdano o'r blaen) a allai fod wedi achosi damwain ddifrifol. Sicrhawyd yr aelodau y cafwyd adroddiad gan beirianwyr adeileddol a gadarnhaodd nad oedd unrhyw berygl ar hyn o bryd i staff a myfyrwyr.
- C. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cynigion cyfredol ar gyfer yr adeilad.

### **19.37 EGWYDDORION RHEOLI PROJECTAU CYFALAF**

- A. Cyflwynodd Cyfarwyddwr PACS bapur ar yr Egwyddorion Rheoli Projectau Cyfalaf. Bydd y Fframwaith Rheoli Projectau diwygiedig yn diffinio rheolaeth projectau yng nghyd-destun ehangach y brifysgol, gyda thimau Cleientiaid a Phroject yn cael swyddogaethau a chyfrifoldebau penodedig, strwythur, mapiau proses a chyflawniadau penodol.
- B. Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig fel ffordd ymlaen i alluogi diweddarau'r Fframwaith Rheoli Projectau.

### **19.38 LLYWODRAETHU ACADEMAIDD**

- A. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Brifysgol y papur ar Lywodraethu Academaidd a nododd y Cyngor y wybodaeth a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i roi sicrwydd pellach. Roedd y rhain



yn cynnwys derbyn adroddiadau o'r Senedd, Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud ag addysg, profiad myfyrwyr ac ymchwil, a chanlyniadau llawn yr NSS.

- B. Ystyriodd y Cyngor y Siarter Myfyrwyr a'r Cytundeb Perthynas, a adolygwyd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.
- C. Nododd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd, 2019.
- D. Yng ngoleuni'r wybodaeth a roddwyd, cytunodd y Cyngor i'r pum datganiad blynyddol ar sicrwydd gael eu hanfon at HEFCW.

### **19.39 ADRODDIAD O'R SENEDD**

Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad ar gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd 8 Hydref 2019.

### **19.40 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GODI ARIAN**

Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Godi Arian. Rhoddwyd gwybod bod ymgynghorwyr wedi'u cyflogi i gynnal adolygiad ehangach o weithgareddau codi arian dros yr ychydig fisoedd nesaf.

### **19.41 ADRODDIAD BLYNYDDOL PREVENT**

- A. Cafodd y Cyngor wybodaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Brifysgol ar gynnydd gyda gweithredu a sefydlu gofynion Deddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r ddyletswydd '*Prevent*'. Nododd y Cyngor fod hyn yn parhau'n uchel ar agenda Grwpiau Tasg a Strategaeth, Pwyllgorau, a swyddogion unigol, a nododd y polisiau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd a'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd nad yw'r Brifysgol wedi gwneud unrhyw gyfeiriadau ffurfiol i'r broses Channel aml-asiantaethol yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, na dechrau blwyddyn 2019/20.
- B. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor yr adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i HEFCW.

### **19.42 DATGANIAD AR GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL**

Cyflwynodd Ysgrifennydd y Brifysgol ddatganiad blynyddol y Brifysgol ar gaethwasiaeth a masnachu pobl. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y datganiad sydd i'w atodi wrth Gyfrifon y Brifysgol am 2018/19.

### **19.43 TACKLING RACIAL HARASSMENT: UNIVERSITIES CHALLENGED**

- A. Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) ymateb y Brifysgol i adroddiad diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Tackling Racial Harassment: Universities Challenged*. Nodwyd bod yr adroddiad diweddar wedi bod yn symbyliad i bob prifysgol adolygu ei gweithdrefnau'n ymwneud ag aflonyddu hiliol ar staff a myfyrwyr. Rhoddwyd darlun cyffredinol o'r ddarpariaeth gyfredol yn y Brifysgol, a ddangosodd fod yna lawer o drefniadau

cadarnhaol eisoes ar waith. Yn ogystal, nododd yr adroddiad rai ystyriaethau at y dyfodol y bwriedir gweithredu arnynt.

- B. Nododd y Cyngor yr adroddiad ac ymateb y Brifysgol.

#### **19.44 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

- A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion).
- B. Derbyniodd a nododd y Cyngor y llythyr Rheoli Archwiliad Allanol ac ymateb y rheolwyr.
- C. Nododd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y pwyllgor a chytunodd y dylid ei gyflwyno i HEFCW.

#### **19.45 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

- A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 6 Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).
- B. Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2018/19. Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch sylw at y prif bwyntiau a gymerwyd o'r Adroddiad Blynyddol, ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol.

#### **19.46 PWYLLGOR DWYIEITHRWYDD**

- A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Dwyieithrwydd a gynhaliwyd 6 Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y cofnodion).
- B. Gyda chyfeiriad penodol at:

[1] Cofnod 423 (**Aelodaeth a Chylch Gorchwyl**) *cytunwyd* i newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Materion Iaith Gymraeg, a fod aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu newid yn unol â'r Atodiad i'r Cofnodion, gan gynnwys darparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor, ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd.

#### **19.47 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

- A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2019 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).
- B. Gyda chyfeiriad penodol at:

[1] Cofnod 179 (Aelodaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau) cytunwyd i:

- Ailbenodi Mr Marc Proudlove-Jones i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau o 1 Ionawr 2020 am dymor pellach o 4 mlynedd.
  - Ailbenodi Mrs Alison Lea-Wilson i'r Pwyllgor Archwilio a Risg o'r 1 Awst 2019, am dymor pellach o 4 mlynedd.
  - Ailbenodi Dr Tomos Dafydd i'r Pwyllgor Materion Iaith Gymraeg o'r 1 Ionawr 2020 am dymor pellach o 4 mlynedd.
  - Penodi'r Is-ganghellor yn Gyfarwyddwr MsParc Cyfyngedig.
- C. **Cytunodd** y Cyngor i benodi Dr Ian Rees i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau o 1 Rhagfyr 2019 am dymor cychwynnol o 4 mlynedd.
- D. Nododd y Cyngor y briff cyfreithiol, sydd ynghlwm fel Atodiad i Gofnodion y Pwyllgor, gan gyfreithwyr y Brifysgol, ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i foderneiddio Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol.

#### **19.48 MATERION ADNODDAU DYNOL**

- A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol, ac yn benodol fe nodwyd:
- [1] Mae 52 o geisiadau am ddiswyddiadau gwirfoddol wedi'u cymeradwyo, gan roi arbedion cynaliadwy o tua £2.3m. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion busnes dros newid bellach wedi'u rhoi ar waith, gyda dau achos pellach sydd â rhai achosion unigol ar ôl i'w setlo. Nodwyd y bydd y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn cau ar 30 Tachwedd 2019.
  - [2] Mae UCU wedi cyhoeddi streic o 25 Tachwedd yn unol â'i fandad ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac roedd nifer o fesurau ar waith i liniaru effaith y gweithredu diwydiannol er mwyn sicrhau bod deilliannau dysgu yn cael eu cyflawni. Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd yn gallu sicrhau y bydd y deunyddiau angenrheidiol yn gallu cael eu cyflwyno ar draws ei rhaglenni academaidd.
  - [3] Bu cynnydd o 30c yr awr i'r Cyflog Byw Go lawn ym mis Tachwedd 2019.
  - [4] Bydd Arolwg Staff yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2020, yn dilyn tendro i benodi darparwr.
  - [5] Bydd y Brifysgol yn cyflwyno hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol yn fuan, a bydd gofyn i'r holl staff gwblhau naill ai gwrs hyfforddi wyneb yn wyneb neu ar-lein.
  - [6] Roedd gweithredu'r dyfarniad cyflog ym mis Hydref 2019 yn cyd-fynd â gweithredu'r gyfradd cyfraniad gweithwyr o 9.6% i staff sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn USS.
- B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

#### **19.49 SELIO**

Cadarnhaodd y Cyngor selio'r dogfennau a restrwyd yn Agendum 23.

